**Adolygiad Lladdiad Domestig gan ddefnyddio'r Adolygiad Ymarfer Oedolion (ALlD-AYO) (peilot 2) GWASB 1.2020**
**'Sean'**

## Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

### 1. Cyd-destun Cyfreithiol

Yn 2011 sefydlwyd Adolygiadau Lladdiadau Domestig (ALlD) ar sail statudol o dan adran 9 y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr (2004). Mae "adolygiad lladdiad domestig" yn ofynnol nawr mewn amgylchiadau ble mae marwolaeth person dros 16 oed wedi, neu mae'n ymddangos ei bod wedi, digwydd o ganlyniad i gamdriniaeth dreisiol neu esgeulustra gan:

(a) berson yr oedd yn perthyn iddyn nhw neu'r oedd wedi bod mewn perthynas personol agos â nhw, neu
(b) aelod o'r un aelwyd ag ef.

Mae cyfrifoldeb ar gyfer sefydlu adolygiad yn nwylo'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) leol neu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a bydd yn sefydlu Panel adolygiad amlasiantaeth i ymgymryd â'r adolygiad. Cynhelir adolygiadau gyda'r bwriad o gael gwybod y gwersi sydd i'w dysgu o'r farwolaeth.

Yn Hydref 2017, dechreuodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James secondiad i Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith ar yr agenda Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Roedd ffocws arbennig ar "Asesu effeithiolrwydd ymateb Llywodraeth Cymru, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus eraill i Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gwneud argymhellion sut y gellid gweithredu'n llawn mewn ymateb iddynt gan wasanaethau cyhoeddus Cymru". Mae'r gwaith yma wedi ei oleuo gan Robinson et al. (2018) Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews. Prifysgol Caerdydd, ar gael trwy http://orca.cf.ac.uk/111010

Cafodd yr ALlD ei wneud trwy fethodoleg yr Adolygiad Ymarfer Oedolion (AYO) Hwn oedd y trydydd cynllun peilot mewn cytundeb â'r Swyddfa Gartref, BGC Torfaen, Bwrdd Diogelu Gwent a Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd yr Heddlu'r achos at y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PDC/BGC) a gytunodd fod yr achos hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Lladdiad Domestig ac a gytunodd i'r atgyfeiriad i gyfarfod Adolygiad Achos Bwrdd Diogelu Gwent i'w ystyried.

Derbyniodd y Grŵp Adolygiad Achos - (is-grŵp o dan adain Bwrdd Diogelu Gwent ) yr atgyfeiriad ar 11/02/2020 gyda chytundeb i ddefnyddio methodoleg peilot ALlD-AYO, a phenodwyd y Cadeirydd a'r adolygwyr. Ar hyn o bryd doedd achosion troseddol ddim wedi cael eu cwblhau. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel ar 01/06/2020, a sefydlodd yr amserlen ac aelodaeth y panel.

Byddai aelod panel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Torfaen yn cyfathrebu gyda'r Swyddfa Gartref ac yn rhoi'r diweddaraf i BGC Torfaen am hynt yr adolygiad.

Roedd cynnwys aelodau teulu Sean yn allweddol i'r adolygiad ac fe wnaethon nhw gyfarfod â'r adolygwyr a chael cysylltiad trwy e-bost trwy gydol y broses adolygu. Ar y pryd, roedd pandemig COVID yn effeithio ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb, serch hynny roedd y cyfarfod cychwynnol gyda'r teulu yn un yn y cnawd yn unol â'u cais.

Dewisodd partner tymor hir Sean peidio â bod yn rhan o'r adolygiad.

Penderfynodd cyn bartner Oedolyn A peidio â bod yn rhan o'r broses, ystyrion ni hefyd blant biolegol a llysblant Oedolyn A a chawsom wybod nad oedden nhw am fod yn rhan oherwydd galar am eu tad-cu. Ar ddiwedd y broses, cysylltodd Oedolyn B, cyn bartner Oedolyn A ag un o'r adolygwyr a chael sgwrs hir.  Roedd hyn ar ôl i'w merch a oedd yn oedolyn farw, ac er ei chof hi, roedd hi am i effaith Oedolyn A fel ei llystad gael ei chynnwys yn yr adolygiad.
Cyfrannodd Oedolyn A hefyd at yr adolygiad a chaniataodd ymweliad â'r carchar.

Cafodd Sean nac Oedolyn A fawr o gysylltiad â gwasanaethau ac eithrio eu Meddyg Teulu.

Cytunodd y teulu i gwrdd â'r adolygwyr a chawsant gynnig cefnogaeth swyddog cyswllt teuluol, cynigiwyd eiriolaeth annibynnol hefyd, ond gwrthodwyd hyn ar adeg y cyfarfod gyda'r adolygwyr. Cafodd y teulu wybod y byddai eiriolaeth annibynnol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod yr adolygiad pe baen nhw'n newid eu meddyliau. Ystyrion ni hefyd y teulu ehangach a ffrindiau a allai fod wedi dymuno bod yn rhan o'r adolygiad, yn enwedig partner tymor hir Sean. Cytunodd y teulu i drafod a dweud wrth yr adolygwyr pe bai eraill am gael eu cynnwys neu os oedd ganddyn nhw rywbeth i'w ychwanegu at yr adolygiad.

Dewisodd y teulu'r llysenw i Sean oherwydd ei fod yn golygu rhywbeth personol iddyn nhw a'r teulu ehangach.

## 2. Amgylchiadau'n arwain at yr Adolygiad

Mae'r ALlD-AYO yn ymwneud â thad a laddwyd gan ei fab sy'n oedolyn. At ddibenion yr adroddiad, cyfeirir at y dioddefwr, y tad, fel Sean, a'i fab y troseddwr fel Oedolyn A.

Symudodd Oedolyn A i mewn i gartref ei dad ar ôl diwedd ei berthynas ag Oedolyn B, gan aros am gyfnod mewn gwesty cyn iddo symud yn ôl i dŷ ei dad. Bu'n byw yno tan Fedi 2019 tan y diwrnod yr ymosododd yn angheuol ar ei dad, Sean.

Cafodd Oedolyn A ei ddedfrydu i garchar am oes am 13 mlynedd a 4 mis yn Awst 2020

Roedd Sean mewn perthynas tymor hir ar adeg ei farwolaeth. Doedden nhw ddim yn byw gyda'i gilydd ac, ar ôl i Oedolyn A symud yn ôl i mewn i gartref ei dad, mae'n ymddangos na ymwelodd partner Sean â'i gartref.

Yn unol â chyfarwyddyd y Swyddfa Gartref roedd yr adolygwyr am sicrhau bod yr adolygiad trwy lygaid Sean fel y dioddefwr trwy adolygu'r hyn oedd ar gofnod a chlywed ei lais trwy ei deulu. Cysylltwyd â holl aelodau'r teulu a ffrindiau agos trwy lythyr, e-bost a'r ffôn a chynigiwyd eiriolaeth iddyn nhw a chyfle i fod yn rhan o'r adolygiad. Esboniodd adolygwyr wrth aelodau'r teulu mai dibenion yr adolygiad oedd sicrhau bod llais Sean yn gryf trwy'r adolygiad, er mwyn galluogi dysgu gan ymarferwyr, ac atal trasiedïau pellach.

Rhoddodd ymgysylltiad y teulu a chyfarfod gydag Oedolyn A hanes crwn bywyd Sean a mewnwelediad i'w berthynas a'i fab, Oedolyn A. Roedd eu perthynas â'i gilydd a rhyngweithio rhwng y ddau a'r teulu ehangach yn tystio i dyndra ers amser hir rhwng Oedolyn A a'i dad nad oedd yn bod rhwng Sean ac unrhyw aelod arall o'r teulu.


Mae'r teulu wedi sôn am y distryw iddynt o golli Sean,

*'**Ef oedd curiad calon y teulu ac mae bwlch ar ei ôl na chaiff ei lenwi byth. Bydd ein hatgofion hapus yn ein calonnau am byth'***

Yn y drafodaeth gydag aelodau'r teulu, disgrifiwyd Sean fel dyn oedd yn gyson addfwyn, cynnes a hael, gyda'i deulu a'r gymuned, yn ariannol a gyda'i amser. Mae ymwneud Oedolyn A a'i deulu'n ymddangos yn ddarlun gwahanol iawn. Cyflwynodd Oedolyn A un fersiwn o'i hun y tu allan i'r cartref ond roedd yn rhiant a phartner oedd yn rheoli trwy orfodaeth yn ei gartref, ac roedd yr ymddygiad yma'n ymestyn at ei dad, ei fam, a'i sibling.

Wrth ddedfrydu Oedolyn A am oes, cyfeiriodd y barnwr at sut roedd Oedolyn A wedi ymosod yn filain ar ei dad, gan ddangos *'dim un gronyn o drugaredd'* tuag at yr hen ŵr ar ôl iddo ei derbyn i'w gartref.

**3.** Genogram




**4. Sean fel y disgrifiwyd ef gan ei deulu**

Ganwyd Sean yn yr Iwerddon a symudodd i'r DU gyda'i deulu pan oedd yn 10 oed. Setlodd y teulu yn ne Cymru, gyda Sean yn llwyddiannus wrth orffen prentisiaeth gyda chwmni lleol ar ôl gadael yr ysgol a bu'n gweithio i'r cwmni am nifer o flynyddoedd. Roedd Sean hefyd yn beldroediwr brwd a chafodd brofion i dimau hanner proffesiynol ac arferai siarad am ei brawf gyda Manchester United gyda balchder. Roedd gan Sean nifer o ddiddordebau, roedd yn grefftwr medrus a charodd bêl-droed gydol ei oes, roedd yn mwynhau darllen, yn enwedig llyfrau natur, a chwarae golff a snwcer.

Roedd gan Sean yrfa lwyddiannus ac roedd yn weithiwr mawr ei barch ac yn rheolwr yn y cwmni. Yn ei fywyd personol, priododd Sean a chafodd blant, cyfeiriodd ei deulu at fel y *'glud'* yn ei deulu agos ac estynedig.

Daeth priodas Sean i ben dros 25 mlynedd yn ôl, ond parhaodd mewn cysylltiad â'i gyn-wraig a byddai'n cynnig cefnogaeth a chymorth ymarferol yn rheolaidd pan oedd angen hynny. Roedd gan Sean ddau o blant ac mae un wedi disgrifio magwraeth hapus ac roedd yn ystyried eu bod nhw fel plant wedi eu *mwytho* gan eu rhieni. Roedd Sean yn edrych yn drylwyr ar unrhyw beth yr oedden nhw'n mynegi diddordeb ynddo a byddai'n eu hannog ym mhob hobi a diddordeb.

Cyfeirir at Sean yn gyson gan y bobl i gyd y siaradom ni â nhw fel dyn addfwyn, oedd yn hapus i helpu unrhyw un yn ei gymuned leol yn ogystal â'i deulu estynedig. Byddai'n cynorthwyo perthnasau hŷn gyda gwaith a negeseuon yr oedd angen arnyn nhw eu gwneud. Roedd Sean yn Wyddel balch a barhaodd i ymweld â'r Iwerddon yn rheolaidd ac a gadwodd mewn cysylltiad â'i deulu estynedig, yng Nghymru, y DU a'r Iwerddon. Roedd yn bwynt cysywllt i'r teulu ar gyfer cefnogaeth emosiynol ac ymarferol pryd bynnag roedd angen.

Roedd y teulu i gyd yn ystyried fod y berthynas rhwng Sean a'i fab yn un anodd. Roedd pawb yn derbyn nad oedd yn berthynas agos ac, ar wahân i Sean yn rhoi i'w wyrion ar eu pen blwydd a gwyliau Cristnogol a chynorthwyo gyda gwaith o gwmpas y tŷ, doedd dim llawr o gysylltiad ag Oedolyn A na'i deulu.  Nid oedd teulu Oedolyn A'n cael eu hannog i gael perthynas â'u tad-cu, na chwaith gydag aelodau'r teulu estynedig y tu allan i'r cartref. Cadarnhaodd pawb fod Oedolyn A yn un oedd yn rheoli pwy oedd yn cael dod i'w cartref a phwy yr oedden nhw'n ymweld â nhw. Doedd Oedolyn A ddim am weld unrhyw un a sicrhaodd nad oedd ei bartner á'i blant yn ymweld ag aelodau'r teulu ar naill ochr na llall y teulu.

Weithiau, byddai Oedolyn A'n gadael i Sean ddod i'w gartref i wneud gwaith yno ond byddai bob amser wedi ei gynhyrfu cyn iddo gyrraedd, doedd e ddim yn groesawgar pan roedd yno nag yn ddiolchgar chwaith am y gwaith a wnaeth i deulu Oedolyn A. Byddai Oedolyn A'n aros lan llofft yn aml ac nid oedd yn siarad â'i dad tra roedd yn y ty. Roedd Sean yn cael ei groesawu i'r cartref gan ei wyrion a phartner Oedolyn A a oedd i gyd yn meddwl bod eu tad-cu'n ddyn caredig a chymwynasgar yr oedden nhw'n hoff o dreulio amser ag e.

Mae'r teulu wedi rhannu gyda'r adolygwyr ac aelodau'r panel nifer o luniau o Sean trwy gydol i fywyd, gartref yn yr Iwerddon ac ar wyliau gyda'i deulu estynedig, bob amser yn gwenu ac yn hapus yng nghanol y teulu mawr.

## 5. Cefndir Oedolyn A.

Mae gan Sean foeseg gwaith gref a threfnodd i Oedolyn A gwblhau prentisiaeth a gweithio gyda'r cwmni oedd yn ei gyflogi ef. Cwblhaodd Oedolyn A ei brentisiaeth a gweithiodd fel gweithiwr medrus am 10 mlynedd gyda'r un cwmni a'i dad. Roedd perthnasau Oedolyn A gyda ffrindiau wrth dyfu yn brin ac nid oedd yn agos at unrhyw grwpiau penodol. Parhaodd y patrwm ymddygiad yma ym mywyd gwaith Oedolyn A ac roedd bob amser ar ymylon y gweithlu, er ei fod yn cael ei annog gan Sean a'i gydweithwyr i ymuno.

Ar adeg marwolaeth Sean, roedd Oedolyn A wedi symud yn ôl i gartref ei dad ar ôl gwahanu o'i bartner tymor hir. Roedd yn ymddangos i'r teulu fod Oedolyn A wedi cymryd ei safle blaenorol yng nghartref ei dad, yr un oedd ganddo cyn symud allan a chael ei deulu ei hun. Roedd Oedolyn A yn anhyblyg yn ei ffordd o feddwl ac ymddwyn, er enghraifft, roedd yn gwrthod paratoi, bwyta na rhannu bwyd gyda'i dad a gwrthododd adael ei dad i mewn i'w gegin ei hun. Roedd ymddygiad Oedolyn A o reoli'r amgylchedd tra roedd yn ei gartref yn cael ei ailadrodd pan symudodd yn ôl i fyw gyda'i dad. Dechreuodd Sean aros allan am gyfnodau hwy o amser. Mae teulu Oedolyn A

yn cyfeirio at ei reolaeth lwyr o fewn yr aelwyd deuluol fel rhywbeth gormesol yr oedden nhw'n derbyn fel y drefn arferol. Doedd dim caniatâd iddyn nhw fod lawr llawr, heblaw am adegau penodol i fwyta yn y gegin ac roedd rhaid wedyn iddyn nhw fynd yn ol i'w hystafelloedd gwely. Ni fyddai byth yn bwyta gyda nhw fel teulu ac ni fyddai byth yn eu hannog i dreulio amser gyda'i gilydd fel teulu. Bu farw un o blant Oedolyn A pan oedd yn oedolyn, roedd hi'n awdur galluog ac ysgrifennodd yn gyhoeddus am fywyd yn y cartref, sut roedd bwyd yn cael ei ddefnyddio fel math o reolaeth a'r effaith a gafodd hyn arni (atodir fel Atodiad A).

Dyma sail y mewnwelediad cyntaf i fywyd teuluol gydag Oedolyn A fel tad a phartner rheolaethol a gorfodol oddi mewn i'w deulu agos. Pan ddechreuodd Oedolyn A ei berthynas ag Oedolyn B, sicrhaodd fod ei chysylltiadau gyda'u perthnasau ar ochr ei mam yn dod i ben yn gynnar yn ystod ei pherthynas.

Cyfeiriodd y teulu at y ffaith fod Oedolyn A fel petai'n rheoli'r cyfan pan oedd yn byw gyda'i dad pan yn ddyn ifanc ac eto pan ddychwelodd i gartref ei dad dros ugain mlynedd yn ddiweddaraf. Dyma oedd disgrifiad y teulu o'r berthynas rhwng Sean a'i fab, ni fyddai am ei gynhyrfu ac felly roedd yn gadael i Oedolyn A ddefnyddio'i gartref yn y ffordd yr oedd yn dymuno. Enghraifft o hyn oedd na fyddai Oedolyn A'n gadael ei dad i fynd i'r gegin pan roedd ef yno na rhannu bwyd gyda'i dad. Roedd Sean eisiau bywyd tawel ac felly ni heriodd ei fab ond derbyniodd yr ymddygiad. Enghraifft arall a roddwyd gan y teulu o sut roedd Oedolyn A'n rheoli ei dad ac yn dangos ymddygiad camdriniol tuag at ei dad oedd pan oedden nhw ymhlith pobl eraill, byddai Oedolyn A'n bychanu ei dad ac yn ei wneud yn gyff gwawd. Roedd Sean fel petai bob amser yn derbyn ymddygiad ei fab tuag ato a dywedodd y teulu fod yn chwith ganddynt fod yn dyst i ddigwyddiadau fel Oedolyn A'n 'chwarae ymladd' yn gorfforol gyda'i dad. Roedd Sean yn ymddangos yn chwithig hefyd ac ystyrid nad oedd hyn yn deg nac yn 'hwyl' oherwydd y gwahaniaeth corfforol rhyngddyn nhw gan fod Oedolyn A yn ddyn mwy a faint a chryfach. Byddai'r ymddygiad corfforol rhyngddyn nhw'n cael ei ddechrau gan Oedolyn A ac roedd yn ymddangos i'r teulu fod Sean yn goddef hynny. Er bod pobl oedd yn gweld hyn weithiau'n anghyfforddus, doedd neb yn y teulu'n teimlo y gallen nhw herio Oedolyn A nac ymyrryd.

Soniodd y teulu am deimlad annifyr pan oedd Oedolyn A gartref gyda Sean ac, o ganlyniad, ni fyddai'r teulu'n ymweld, ond byddai Sean yn ymweld â chartrefi pawb ar ei ben ei hun er mwyn cadw mewn cysylltiad. Y teimlad llethol yn y teulu oedd bod Sean am gael bywyd tawel ac, o bosibl roedd ganddo ofn neu roedd yn teimlo'n chwith herio Oedolyn A a'i ymddygiad tuag ato.

Roedd gan Oedolyn A berthynas dan bwysau gyda'i sibling, a doedden nhw ddim wedi siarad ers dros 20 mlynedd. Disgrifiwyd y berthynas o Oedolyn A i'w sibling fel un sbeitlyd, a phan roedd hi yn ei harddegau, byddai'n dewis peidio aros yng nghartref y teulu ar ei phen ei hun gydag Oedolyn A (yn ei arddegau'r pryd hynny hefyd), tra bod eu rhieni yn y gwaith, oherwydd doedd hi ddim yn teimlo'n ddiogel gydag ef.

Pan ddechreuodd Oedolyn A berthynas a'i bartner yn 1993, symudodd allan o gartref ei deulu ac i mewn i gartref ei bartner newydd gyda'i phlant o fewn blwyddyn o gyfarfod â hi. Ar yr adeg yma roedd Oedolyn A'n bendant nad oedd am gadw cysylltiad â'i deulu genedigol a byddai nawr yn canolbwyntio ar ei deulu ei hun, ei bartner ei lysblant a'r teulu mawr yr aethon nhw ymlaen i gael gyda'i gilydd.

**6. Arwyddion cynnar o ymddygiad rheolaethol a gorfodol.**

Roedd ymddygiad Oedolyn A bob amser yn rheolaethol fel oedolyn ifanc o fewn cartref ei deulu a thuag at ei rieni a'i sibling. Parhaodd y lefel yma o reolaeth ac ymddygiad pan ddechreuodd berthynas â'i bartner a'i phlant. Yn gynnar yn eu perthynas, darbwyllodd Oedolyn A ei bartner

nad oedd angen cefnogaeth, cyfeillgarwch na pherthynas arni gyda'i theulu, a thorrwyd cysylltiadau iddi y tu allan i'r cartref.

Awgrymodd Oedolyn A i'w bartner nad oedd angen unrhyw un arni hi, dim ond e; byddai e'n gofalu amdani a'i phlant ac nid oedd modd ymddiried yn unrhyw un arall i'w chefnogi. Fe wnaethon nhw gyfarfod ar gwrs addysgol ac roedd hi wrthi'n gwneud ei rhan olaf pan niweidiodd Oedolyn A ei hun trwy drywanu ei hun a dywedodd iddi gael ei gorfodi i roi diwedd ar ei chwrs er mwyn gofalu amdano. Doedd dim rheswm am ei ymddygiad o niweidio'i hun, a gwrthododd dderbyn unrhyw gefnogaeth gan y gwasanaethau iechyd. Serch hynny, dyma oedd dechrau ei ymddygiad gorfodol a rheolaethol tuag at ei bartner. Cafodd yr effaith arni o beidio â chwblhau ei chwrs a ddim mynd at yrfa yn y maes yr oedd hi wedi ei hyfforddi i wneud.

Wrth edrych yn ôl, gall ei gyn bartner adnabod y rheolaeth yr oedd yn ei defnyddio a'r graddau y byddai'n mynd iddynt i'w gwahanu hi o'i theulu a'i harwain hi i gredu mai dim ond ef fyddai'n gofalu amdani ac yn ei gwarchod. Pan gwrddon nhw, roedden nhw ill dau mewn addysg ac ni aeth hi erioed i'r proffesiwn gan iddi golli ei hyder a dechreuodd fod yn bryderus iawn. Yn gorfforol, mae hi'n cyfeirio at ddod yn fregus a'i bod hi ddim yn gallu ymdopi'n emosiynol heb gefnogaeth Oedolyn A ond doedd hi ddim yn cydnabod hynny fel ymddygiad rheolaethol neu gamdriniaeth ddomestig.

Ers gwahanu a thorri cysylltiadau gydag Oedolyn A, mae Oedolyn B wrthi'n cwblhau cwrs hyfforddiant proffesiynol yn llwyddiannus. Yn ei hyfforddiant proffesiynol, mae hi wedi cael ei chyflwyno i'r syniad o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (PNP) a'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2015, ac mae'n adnabod y rheolaeth yr oedd gan Oedolyn A drosti fel camdriniaeth ddomestig. Dechreuodd Oedolyn B ystyried y bywyd oedd gan y plant a'r teulu pan oedden nhw'n byw gydag Oedolyn A.

Mae gwirionedd yr hyn y bu ei theulu'n byw drwyddo a'r gydnabyddiaeth o sut yr oedden nhw'n cael eu rheoli gan Oedolyn A yn rhywbeth yr oedden nhw'n gweithio arno fel teulu. Roedd ei dealltwriaeth o drais domestig dim ond yn ystyried trais corfforol ac, ar ddau achlysur, gwnaeth Oedolyn A niwed corfforol iddi, ar ôl iddo yfed swm sylweddol o alcohol. Roedd hwnnw'n amlwg yn drais domestig yn ei meddwl hi, ac fe ddechreuodd ystyried beth fyddai/gallai hi wneud a pha opsiynau cefnogaeth oedd ganddi. Ar yr adeg honno, roedd hi'n teimlo nad oedd lloches yn opsiwn a, gan ei bod hi wedi torri cysylltiadau â'i theulu, roedd hi'n teimlo nad oedd ganddi ddewis ond ceisio gwneud i bethau weithio. Wrth ystyried, mae hi'n gwybod bod caniatáu ymddygiad Oedolyn A a'i reolau a'i ffyrdd o reoli'r cartref yn gamdriniaeth tuag at y plant a hi ei hun: trwy ei reolaeth o'r bwyd yr oedden nhw'n bwyta, ble roedden nhw'n mynd a sut roedden nhw'n treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau ifanc yn eu hystafelloedd wely oherwydd ni fyddai'n caniatáu iddyn nhw fod lawr grisiau.

Roedd Oedolyn A'n ymddangos fel pe bai'n newid ei ymddygiad a dechreuodd gynyddu achosion o dorri ei hun pe nai bai Oedolyn B gartref neu pe bai allan am yn hirach na'r hyn yr oedd Oedolyn A'n ystyried yn angenrheidiol. Daeth yr Heddlu i'r cartref nifer o weithiau pan oedd Oedolyn A wedi niweidio'i hun ac wedi bygwth lladd ei hun. Roedd bob amser yn gwrthod asesiad pellach neu atgyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl ac roedd ei bartner yn pryderu pe bai gwasanaethau plant yn dod i wybod, efallai byddai'r plant yn cael eu symud.

Mae'n ymddangos bod atgyfeiriadau at wasanaethau Iechyd Meddwl yn fodd i Oedolyn A ddefnyddio'r apwyntiadau ar gyfer ei anghenion pellach, fel tystiolaeth i'r asiantaeth budd-daliadau neu'n fwy penodol i'w defnyddio fel bygythiad i Oedolyn B. Mewn trafodaeth, mae Oedolyn A'n eglur ei fod wedi cysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl pan roedd yn dymuno, nid oedd yn dilyn gydag apwyntiadau pellach oherwydd roedd wedi dewis peidio ymgysylltu a nhw. Yn ei farn ef, nid oedd arno eu hangen am unrhyw gefnogaeth na thriniaeth benodol.

Roedd atgyfeiriadau at wasanaethau plant yn cael eu hystyried yn rhywbeth 'cywilyddus' gan Oedolyn A a'i bartner ac roedd ymholiadau'r gwasanaethau plant bob amser yn penderfynu fod y plant yn ddiogel gyda'u mam ac mai iechyd meddwl Oedolyn A oedd angen sylw gan ei Feddyg Teulu a'r gwasanaethau iechyd meddwl.

Roedd Oedolyn A bob amser y defnyddio'i hunan-niwed i reoli'r amgylchedd yn y cartref ac nid oedd ganddo fwriad o dderbyn cymorth gwasanaethau. Byddai'n dadlau gyda'r gwasanaethau i gyd a oedd yn cynnig asesiad neu gymorth gyda'i hunan-niwed (torri ei hun ac yfed llawer o alcohol). Gwrthododd ofyn am gymorth a chadarnhaodd y bydd yn parhau i wrthod cynigion o gymorth neu asesiad er mwyn ceisio deall ei ymddygiad ei hun. Mae'n derbyn ei fod wedi lladd ei dad ac nid yw'n cynnig unrhyw ffeithiau a allai esbonio pan iddo wneud hyn ar wahân i'w ddiflastod dros fynediad at y rhyngrwyd tra'r oedd yn aros gyda'i dad. Mae'n cydnabod ei fod yn rheoli'r amgylchedd i'w deulu ond, eto, nid yw'n derbyn bod hyn yn ymddygiad camdriniol yn erbyn ei blant a'i bartner.

Pan fynegodd yr ysgolion bryderon am y llys-blant yn gwrthod mynd yn ôl adref ac yn dymuno aros gyda ffrindiau oherwydd honiadau o gamdriniaeth gorfforol a chamdriniaeth emosiynol gan Oedolyn A, gwrandawodd y gwasanaethau plant arnyn nhw a chwiliwyd am lety amgen. Roedd gweithredu ar atgyfeiriadau o'r ysgol a'r Heddlu at y gwasanaethau plant fel materion unigol gyda gwasanaethau ddim yn ymholi ymhellach am y perthnasau yn y cartref. Rydym yn ystyriol fod hyn dros 20 mlynedd yn ôl a byddai datblygiad strategaethau cyfathrebu o fewn polisi a phrosesau ar gyfer gwiriadau ystlysol wedi eu cwblhau nawr.

Roedd effaith ehangach ymddygiad Oedolyn A ar y teulu a etifeddodd, wrth edrych yn ôl, wedi ei gynllunio o bosibl. Efallai bod tynnu'r llys-blant o'r cartref oherwydd eu 'hymddygiad afreolus' wedi arbed y plant rhag camdriniaeth bellach ganddo fel eu llys-dad, serch hynny mae llety gofal maeth a gosodiadau preswyl bob amser yn cael effaith ar blant sy'n awgrymu eu bod wedi eu gwrthod a thorrwyd y berthynas â'u mam. Mae mewnwelediad i fywyd un o lys-blant Oedolyn A wedi ei nodi a'i gofnodi. Yn anffodus, bu hi farw'n ddiweddar yn oedolyn ifanc. Mae enghraifft o reolaeth orfodol Oedolyn A fel llys-dad i'w gweld yn un o'r darnau cyhoeddus a ysgrifennodd.

*‘roedd unrhyw beth a oedd yn atgoffa fy llys-dad o'i rhagflaenydd yn ei wylltio. Mae'n hawdd cuddio neu ddinistrio lluniau, ond mae plant yn fwy anodd- cael gwared arnyn nhw. Efallai bod hyn oherwydd fy mod yn ymddangos yn fwy fel fy nhad na fy mam, ond des i'n darged llawer o'r dicter yma, ac o'r herwydd ces i fy nghosbi'n ddiddiwedd. Ond, gallwch ddod i arfer â dioddef, ac yn y pen draw, gall hyd yn oed plant ddod i arfer â phoen corfforol, gan ei theimlo llai a llai fel cweiriau annioddefol a mwy fel ffurf gorfforol o gerddoriaeth gefndir, neu sŵn parhaus yn eich clust. Felly, roedd rhaid i'r ymosodiadau newid, ymddangos mewn sawl ffurf, nid dim ond cael eich taro, ond eich taro gan wregysau, eich taro ar wahanol rannu o'ch corff, cawodydd oer am oriau, cael ei rhoi ar eich pen eich hun yn y tywyllwch, ac, yn olaf, un maes brwydr arbennig: bwyd.*’

Mae'r erthygl lawn yn Atodiad A.

Roedd Oedolyn A wedi peidio â gweithio neu fynd i gyrsiau addysgol ac roedd yn teimlo fod ganddo'r hawl i fyw ar fudd-daliadau ac nad oedd rhaid iddo gynnal ei deulu. Gorfododd hyn i'r teulu ymdrechu i oroesi oherwydd i'r teulu dyfu'n sylweddol gyda nifer o blant. Roedd maint y teulu'n rhwystr hefyd i Oedolyn B pan roedd hi'n ystyried opsiynau ar gyfer gadael Oedolyn A.

Pan gafodd Oedolyn A ei blant ei hun, cafwyd atgyfeiriad at wasanaethau plant gan yr Heddlu pan geisiodd niweidio'i hun yn ddifrifol hyd nes bod angen i wasanaethau arbenigol ymyrryd. Agorwyd y plant i ddigwyddiadau trawmatig yn y cartref oherwydd ei ymddygiad. Roedd ymddygiad hunan-niweidiol gan Oedolyn A yn arf rymus yn y cartref i reoli'r sefyllfa ac roedd y teulu'n ofalus o'i gwmpas er mwy peidio â tharfu arno na'i herio mewn unrhyw ffordd, ac er mwyn cadw'r heddwch. Roedd hyn yn batrwm tebyg i Sean pan ddychwelodd Oedolyn A i fyw gydag e. Roedd Oedolyn A'n rheoli'r cartref ac roedd Sean bron yn westai yn ei gartref ei hun, yn gweithio a byw o gwmpas Oedolyn A. Enghraifft o hyn yw nad oedd paratoi bwyd a bwyta gyda'i gilydd byth yn opsiwn. Nid oedd Sean yn cael mynd i'w gegin ei hun, dim ond pan oedd Oedolyn A wedi gorffen ac yn gadael iddo fynd yno. Soniodd cyn-bartner Oedolyn A hefyd am y patrwm yma hefyd, dim ond Oedolyn A oedd yn cael mynd i'r gegin, doedd y plant nac Oedolyn B ddim yn cael mynd i'r gegin os oedd eu tad yno'n paratoi prydiau iddyn nhw. Roedd Oedolyn A'n dewis beth fyddai pawb yn bwyta ac roedd yn paratoi'r bwyd heb ddewis gan y teulu beth roedden nhw ei eisiau. Roedd bwyd yn cael ei ddefnyddio fel cosb gyda'i blant a'i lys-blant a chadarnhaodd ei gyn bartner hyn, byddai'r plant hefyd yn bwyta yn eu hystafelloedd eu hunain oherwydd nid oedd Oedolyn A am eu cael yn yr ystafelloedd lawr grisiau. Mae Oedolyn B wedi dweud ers i Oedolyn A, eu tad, adael cartref y teulu, roedd y plant yn ei chael yn anodd eistedd lawr grisiau a mwynhau bwyd heb ofn. Mae'r erthygl lawn gan lysferch Oedolyn A'n son am effaith bwyd fel cosb a'r effaith a gafodd gydol oes.

## 7. Perthynas sibling

Chwalodd y berthynas rhwng Oedolyn A a'i sibling yn llwyr pan ddechreuodd Oedolyn A ei berthynas ag Oedolyn B, a chyhoeddodd i'w deulu nad oedd ganddo sibling bellach a byddai'n canolbwyntio ar ei deulu ei hun. Ni wellodd y berthynas rhyngddyn nhw hyd yn oed pan gafodd Oedolyn A ei blant ei hun. Does gan blant y sibling ddim perthynas â'u cefndryd, ac mae'n ymddangos fod y ddau sibling yn byw bywydau ar wahân a bod ganddynt berthnasau annibynnol gyda Sean a gweddill y teulu ehangach.

## 8. Teulu'n gweithredu o fewn rheolaeth orfodol

Parhaodd Sean i reoli trefniadau teuluol ar gyfer dathliadau ac angladdau, gan gynnwys dymuniadau Oedolyn A, er enghraifft amserau gwahanol ar gyfer ymweld a mynd i ddigwyddiadau fel angladdau teuluol, peidio ag eistedd gyda'i sibling a chadw draw o amryw o aelodau'r teulu. Serch hynny, byddai Oedolyn A'n rheoli ei bryder mewn digwyddiadau teuluol ac yn gyffredinol mewn gweithgareddau cymunedol yr oedd rhaid iddo fynd iddynt. Cyflwynodd hyn rith o deulu oedd yn gweithio ac nad oedd ag unrhyw fater oedd yn peri pryder.

Dywedodd Oedolyn B storïau am sut y byddai Oedolyn A'n cynhyrfu a'i fod yn anodd byw ag e cyn unrhyw ddigwyddiad teuluol/cymunedol, ond byddai'n berson cwbl wahanol yn y digwyddiad. Byddai'n gyfeillgar, ac yn sgwrsio ac yn ymwneud ag eraill. Fe'i disgrifiodd fel cymeriad 'Jekyll and Hyde', byddai'n cadw llygad barcud arni a'r plant bob amser ac roedden nhw'n gwybod sut i ymddwyn. Doedd Sean byth yn ymwybodol o'r graddau iddynt roedd Oedolyn A'n rheoli ei deulu agos. Dywedodd ei gyn bartner ei bod hi wedi cuddio ymddygiad Oedolyn A tuag at ei blant o olwg ei dad gan y byddai wedi bod ei siomi'n fawr a byddai am gywiro pethau. Byddai hyn wedi rhoi'r teulu mewn perygl pellach ac roedd yn haws ceisio ei reoli fel yr oedden nhw wedi gwneud.

Doedd Oedolyn A ddim yn gweithio ac, er ei fod yn weithiwr medrus, prin iawn roedd yn gadael y cartref. Roedd cynnydd yn ei ddefnydd o alcohol a lefel uchel o esgeuluso ei hun gyda'i ymddangosiad a'i ofal personol, fel cysgu mewn cadair a pheidio â defnyddio'r toiled, yn pasio dŵr yn y gadair a'r gwely pan oedd yn ei ddefnyddio. Roedd yn bryder i'w bartner pan fyddai'n

eistedd lawr grisiau yn yfed yn drwm ac roedd y posibilrwydd y byddai'n dechrau torri ei hun yn peri straen parhaus.

**9. Blynyddoedd cynnar tad a mab**

O adeg pan oedd yn ifanc, awgrymwyd y byddai Oedolyn A'n cael ei ffordd ei hun gyda'i rieni'n ei foddio gyda phob gweithgaredd roedd ganddo ddiddordeb ynddo. Roedd Oedolyn A'n ddisgybl cydwybodol tan 13 oed, pan mae'n disgrifio peidio â mwynhau'r teimladau o ganmoliaeth neu o sefyll allan ymhlith ei gyfoedion ac fe benderfynodd beidio â gwneud ei orau gyda'i astudiaethau.

Ni fyddai Sean yn herio Oedolyn A fel plentyn nac fel oedolyn. Yn hytrach na herio, byddai Sean yn annog Oedolyn A gyda diddordebau a rhoddodd y modd i Oedolyn A wneud unrhyw beth yr oedd yn dymuno i'w gadw'n brysur. Parhaodd y patrwm yma pan ddychwelodd Oedolyn A i fyw gyda Sean dros 20 mlynedd yn ddiweddarach. Rhoddodd Sean y modd ar gyfer hobïau a diddordebau i Oedolyn A. P'un ai oedd hyn i foddio neu dawelu Oedolyn A, nid yw'n glir.

Cyfeiriwyd at y patrwm hwn o ymddygiad cyn i Oedolyn A adael cartref ei rieni, cyn iddo ddechrau ei berthynas a hefyd pan ddychwelodd i fyw â Sean. Nid oedd wedi newid ond roedd wedi dod yn fwy cadarn a sefydlog. Doedd Oedolyn A ddim yn gweithio y tu allan i'r cartref ond mae'n cyfeirio at ei hun fel prif gynhaliwr y cartref ac fel un oedd yn darparu at anghenion y teulu. Mae'n cyfeirio at fod yn gogydd y teulu a darparu prydiau i'r teulu cyfan bob dydd. Dywedodd nad oedd yn bwyta gyda'r teulu gan nad oedd yn gallu. Y gegin oedd ei diriogaeth ac roedd y teulu i gyd yn derbyn na allen nhw fod yn y gegin pe bai Oedolyn A'n paratoi bwyd. Mae'n cadarnhau mai dyna'r sefyllfa hefyd pan ddychwelodd i fyw gyda'i dad.

**10. Toriad arwyddocaol yn y teulu/diwedd perthynas**

Wrth i'r plant dyfu gydag Oedolyn A, dechreuon nhw amau a herio ymddygiad eu tad, dechreuodd Oedolyn A waethygu o ran gofalu am ei hun a hylendid personol. Roedd Oedolyn B wedi penderfynu bod rhaid i'r berthynas ddod i ben ond roedd yn ei chael yn anodd penderfynu sut i ddod â hi i ben. Cododd cyfle pan anafodd Oedolyn A ei law mewn digwyddiad o hunan-niwed a bu rhaid iddo fynd i'r ysbyty am driniaeth. Roedd Oedolyn B wedi newid y cloeon a sicrhaodd bod yr Heddlu'n dod i symud Oedolyn A allan pan geisiodd mynd i'r cartref. Arhosodd Oedolyn A yn ei gar am noson ar y dechrau a rhoddodd Oedolyn B bwyd a blancedi iddo. Er ei bod hi'n cydnabod fod y berthynas ar ben, roedd hi dal yn teimlo cyfrifoldeb i wneud yn siŵr ei fod yn gyfforddus. Symudodd Oedolyn A i westy cyn gofyn i'w dad roi cartref iddo. Mae'n ymddangos bod amharodrwydd o du Sean i gynnig ei gartref yn syth i'w fab, serch hynny mae'r teulu wedi cadarnhau eu bod yn credu bod Sean wedi cynnig cartref iddo pan nad oedd unrhyw le arall ganddo i fynd iddo. Mae'r cwestiwn a gynigiodd Sean ei gartref o'i wirfodd yn aneglur ac mae pawb yn derbyn y byddai Sean wedi bod yn ymwybodol y byddai cael Oedolyn A'n dychwelyd ac yn rheoli ei gartref eto wedi newid amgylchedd cartref Sean, ac na fyddai ei deulu a'i ffrindiau'n ymweld bellach. Byddai dal wedi rhoi anghenion ei fab am lety flaenaf.

Roedd y cyfarfod gyda theulu Sean cryn dipyn amser ar ôl iddo gael ei lofruddio ac roedden nhw wedi ystyried y berthynas rhwng y tad a'r mab ac wedi nodi digwyddiad a oedd yn peri pryder ar y pryd ond sydd nawr, gyda dealltwriaeth well o'r hyn ddigwyddodd, wedi peri iddyn nhw gwestiynu'r digwyddiad hwnnw. Ymwelodd Sean a'u cartref, nid yn hir cyn iddo farw. Roedd wedi cerdded i mewn i ddrws ac roedd yn cwympo yn ôl felly fe aethon nhw i afael ynddo, ac maen nhw'n cofio Sean yn gwingo'r gorfforol fe pe bai'n mynd i gael ei daro. Dywedodd y teulu rywbeth am hyn, ond roedd Sean yn ymddangos yn chwithig. Maen nhw'n pendroni nawr a oedd e'n dioddef camdriniaeth gorfforol gan Oedolyn A a dyma pam iddo ddechrau ymweld â'u cartrefi ac aros yn hirach nag o'r blaen cyn i Oedolyn A symud i fyw gydag e. *"Roedd fel pe na bai am*

*fod gartref".* Mae'r panel yn cydnabod ei fod bob amser yn heriol ystyried digwyddiadau yn nes ymlaen gyda mwy o wybodaeth, ac maen nhw'n ddiolchgar fod y teulu'n gallu rhannu eu meddyliau.

**11. Cofnodion proffesiynol**

Roedd ymwneud ymarferwyr gyda Sean dim ond trwy apwyntiadau iechyd cyffredin gyda'i feddyg teulu. Doedd Sean ddim yn hysbys i unrhyw wasanaethau cymunedol eraill.

Mae'r cofnodion sydd ar gael gan y gwasanaethau plant dros 20 mlwydd oed ac ar ôl ymwneud â, a thynnu i ffwrdd llys-blant yn ôl eu cais, mae yna ychydig iawn o ymwneud ar ôl hynny. Atgyfeiriadau gan yr heddlu at y gwasanaethau plant ar ôl iddyn nhw ddod i'r ty pan oedd Oedolyn A wedi niweidio'i hun oedd y prif atgyfeiriadau. Roedd hyn yn cael ei weld fel mater iechyd meddwl/oedolion ac mae'n ymddangos nad oedd trafodaeth rhwng meysydd gwasanaethau oedolion a phlant ynglŷn ag effaith posibl ymddygiad Oedolyn A yn y cartref ar y plant yn y cartref. Felly, mae ymgysylltiad y teulu gyda'r adolygiad wedi bod yn allweddol oherwydd y diffyg gwybodaeth mewn cofnodion proffesiynol a diffyg ymwneud proffesiynol â Sean ac Oedolyn A.

**12. Ffactorau gwarcheidiol ym mywyd Sean**

Roedd gan Sean deulu estynedig mawr- yr oedd yn cadw mewn cysylltiad â nhw pob dydd trwy'r ffôn a thrwy ymweliadau dyddiol weithiau ac wythnosol pob amser.

Roedd Sean yn rheolwr medrus a llwyddiannus oedd yn uchel ei barch yn y gwaith gyda nifer o ffrindiau.

Roedd Sean yn adnabyddus ac yn sefydlog yn ei gymuned, roedd yn hysbys fel dyn caredig a chymwynasgar a fyddai'n gwneud unrhyw beth i'w gymdogion a'i gymuned. Byddai'n ymuno â digwyddiadau cymunedol a rhoddai gefnogaeth ymarferol pan roedd angen. Roedd bob amser yn gwirfoddoli ac roedd yn siriol ac yn cael ei barchu gan bawb a oedd yn cyfarfod ag ef.

Aeth Sean at ei feddyg teulu rhai diwrnodau cyn ei farw ac roedd ei bwysau gwaed wedi codi.

**13. Gwendidau i Sean**

Roedd Sean yn ddyn oedd yn dymuno dim gwrthdaro mewn bywyd, roedd am fod yn falch o'i blant a'i orchestion. Ni fyddai'n siarad yn negyddol amdanyn nhw, dim ond pethau da.

Roedd perthynas Sean ag Oedolyn A pan oedd hwnnw'n ei arddegau ac yn ddyn ifanc yn byw gyda'i gilydd yn y cartref teuluol yn un o dyndra a chyd-fyw ar sail cyfaddawd. Byddai Sean yn gadael i Oedolyn A reoli'r cartref, rhoddodd i Oedolyn A pa beth bynnag roedd ganddo ddiddordeb ynddo a rhoddodd fodd i ddeiet amgen Oedolyn A, gan ei fod yn gwrthod rhannu unrhyw brydiau gyda'i dad, nac yn wir coginio na derbyn bwyd gan ei dad.

Roedd ymddygiad Oedolyn A pan ddychwelodd i gartref ei dad yn ymddangos yn fwy cadarn nad yr oedd pan oedd yn oedolyn ifanc.

Roedd Sean yn hoffi datrys problemau i'w deulu, ar gost iddo ef ei hun yn emosiynol, yn ariannol, ac yn gorfforol gydag Oedolyn A.

**14. Themâu**

Fel rhan o ALlD/AYO, byddai Digwyddiad Dysgu fel arfer yn cael ei gynnal i ymgysylltu â'r ymarferwyr a fy ynghlwm wrth Sean ac Oedolyn A. Doedd hyn ddim yn bosibl oherwydd y diffyg cysylltiad proffesiynol â'r naill neu'r llall. Roedd yna themâu trosfwaol a nodwyd sydd wedi goleuo'r pwyntiau dysgu o'r adolygiad hwn.

Ystyriodd y panel amrywiaeth eang o themâu posibl i'w hystyried wrth drin y berthynas rhwng tad a mab ac unrhyw ddangosyddion ar gyfer y teulu neu bobl broffesiynol a allai fod wedi eu nodi i atal y drasiedi hon.

**15. Themâu mewn perthynas â Sean**

Yr unig berson proffesiynol a gafodd gysylltiad â Sean oedd ei feddyg teulu sydd wedi ystyried ei sgwrs gydag e yn yr apwyntiad hwnnw. Roedd Sean yn ymddangos fel yr oedd bob amser, wedi ei wisgo'n drwsiadus, yn gwrtais a gyda dim gwahaniaethau amlwg yn ei ymddangosiad. Doedd y meddyg teulu ddim yn ymwybodol fod ei fab wedi dychwelyd ato i fyw, ac ni wnaeth hi ystyried y ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach posibl a allai fod wedi bod yn sylweddol gyda'i bwysau gwaed wedi codi. Mae'r ystyriaeth hon wedi galluogi'r meddyg teulu i ystyried nid dim ond oedran fel ffactor pan fo cleifion yn dod gyda phwysau gwaed uwch, ond i ystyried holi ymhellach ynglyn â beth arall allai fod yn digwydd yn eu bywydau personol. Pe bai hi wedi gwybod bod mab Sean wedi symud yn ôl i fyw gyda'i dad, neu wedi holi am faterion cyffredinol, efallai byddai trafodaeth ehangach wedi digwydd ynglyn â straen yn y cartref.

**Nid ydym yn gwybod a fyddai Sean wedi trafod y sefyllfa gartref, ond gellir ystyried bod hwn yn gyfle a gollwyd.**

**16. Y teulu'n derbyn Oedolyn A'n symud yn ôl gyda Sean**

**16.1** Roedd yr effaith a gafodd Oedolyn A ar y teulu ehangach pan symudodd yn ôl i fyw gyda'i dad, arnyn nhw i gyd. Roedd dewis peidio ag ymweld â chartref Sean yn symptomau o sut y bydden nhw'n teimlo pe baen nhw'n ymweld tra bod Oedolyn A'n byw yno. Dewison nhw beidio â mynd i'w gartref a derbynion nhw y byddai Sean yn treulio cyfnodau estynedig o amser gyda nhw yn eu cartrefi eu hunain ac roedden nhw wedi dechrau ystyried sut beth oedd bywyd i Sean yn ei gartref ei hun.

**16.2** Nid oes modd gor-ddweud y rheolaeth orfodol roedd yn ymddangos bod gan Oedolyn A dros Sean. Mae'r newid wrth i Sean deimlo fod rhaid iddo adael ei gartref i weld pobl yn dangos ymddygiad rhagweithiol gan Sean i warchod ei hun ac, o bosibl, eraill. Roedd ymateb Sean a welwyd gan ei deulu'n dystiolaeth ei fod yn dod yn hynod wyliadwrus o ran ei ddiogelwch ei hun, hyd yn oed pan oedd mewn lle diogel.

**17. Themâu mewn perthynas ag Oedolyn A.**

Roedd y teulu cyfan yn derbyn bod Oedolyn A'n wahanol, ac o oedran ifanc roedd ei sibling yn meddwl y gallai ei lladd hi neu eu mam, o ganlyniad cadwon nhw draw ohono ac ni cheision nhw sefydlu perthynas mwy ystyrlon. Doedd neb yn y teulu erioed yn ystyried bod Sean mewn perygl gan ei fab ei hun.

**17.1** Roedd ymddygiad cadarn a rheolaethol Oedolyn A wedi ei hen sefydlu, cyn iddo gyfarfod â'i bartner a dechrau ei deulu ei hun. Mae yna awgrymiadau fod gan Oedolyn A fath o awtistiaeth ond does dim cadarnhad o hynny. Roedd Oedolyn A'n ystyried fod ganddo awtistiaeth ac roedd wedi ymdrechu i gael diagnosis at ddibenion cael budd-daliadau ac i 'fodloni' ei bartner. Mae Oedolyn A'n credu bod ei ymddygiad rheolaethol yn fath o awtistiaeth gan ei fod wedi ymchwilio'r

ymddygiadau ac wedi rhoi diagnosis iddo fe'i hunan. Cyfeiriwyd ef am asesiad gan ei Feddyg Teulu a chwblhaodd asesiad a oedd yn gyson gyda diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Gwrthododd apwyntiadau pellach a daeth unrhyw ymdrechion i ymgysylltu a'r gwasanaethau iechyd meddwl i ben bob amser gydag Oedolyn A ddim yn mynd i apwyntiadau. Mae'r nifer o droeon y bu i Oedolyn A niweidio'i hun yn ymddangos fel pe bai'n ymddygiad rheolaethol i sicrhau fod ei bartner a'i blant yn gwneud fel yr oedd yn dweud. Roedd dwyster ei hunan-niwed a hunan-esgeulustra cyn i'r berthynas ddod i ben yn gwthio'i bartner i ddod a'r berthynas i ben. Dyma oedd gwrthwyneb yr hyn yr oedd Oedolyn A wedi bwriadu. Fe wnaeth y cynnydd yn ei ddefnydd o alcohol a hunan-esgeulustra difrifol gynyddu awydd ei bartner a'i phlant i fywyd teuluol fod yn wahanol.

**17.2** Mae Oedolyn A'n eglur nad oedd eisiau help ond byddai'n mynd gyda phethau er mwyn cadw ei bartner yn dawel.
Roedd mynd i wasanaethau iechyd meddwl yn rhywbeth ysbeidiol ac roedd ganddo reswm bob amser pam na allai gymryd rhan, er enghraifft, roedd yr ystafell yn rhy fawr, yn rhy fach, yn rhy llawn neu dim digon o bobl. Mae e wedi cadarnhau bod angen diagnosis arno at ddibenion cael budd-daliadau, ac roedd yn digio fod rhaid iddo roi unrhyw dystiolaeth i gael cymorth ariannol. Mae'n cyfeirio at fynd i sioeau cwn gyda'i bartner fel *'gweithred o ddyfalwch',* nid oedd byth eisiau gwneud hyn ac mae'n derbyn y byddai'n berson gwahanol pan oedd rhaid iddo fod y tu allan i'r cartref. Mae'n parhau heddiw i beidio ag ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth ac mae'n dweud na all ofyn am gymorth, oherwydd bydd yn gwrthod cydweithredu.

**17.3** Parhaodd Oedolyn A i geisio â rheoli ei gyn bartner ar ôl iddo gael ei arestio. Mae wedi bod ar streiciau newyn ac wedi parhau i niweidio'i hun, gan ddweud wrth ei bartner bob tro mae'n gwneud. Mae hyn wedi dod i ben nawr gan ei bod hi wedi newid ei rhif ffôn ac nid yw'n agor llythyrau ganddo.

**18. Cydnabyddiaeth o Gamdriniaeth Ddomestig ac yn benodol Gorfodaeth a Rheolaeth yn y berthynas rhwng Sean a'i Fab, Oedolyn A.**

Roedd y panel yn ystyriol o'r ffaith fod rheolaeth orfodol yn ffactor sylweddol mewn rhagweld ALlD ac, o ganlyniad roedden nhw am sicrhau fod hyn yn cael ei ystyried yn fanwl.

Roedd cydnabyddiaeth o'r panel yn bod yn agored i ystyried pob agwedd ar berthynas Sean ag Oedolyn A yn galluogi ystyriaeth ehangach o'r pŵer a'r rheolaeth ym mherthynas y tad a'r mab. Ystyriodd y panel natur emosiynol, reolaethol a gorfodol eu perthynas a ddaeth yn amlwg pan oedd Oedolyn A yn ei arddegau ac a barhaodd i waethygu pan gafodd ei deulu ei hun a phan ddychwelodd i gartref ei dad. Nid oedd wedi newid ond daeth yn fwy pendant ei syniadau a'i ymddygiadau er anfantais i'r rheiny yr oedd yn byw â nhw.

Creodd y Ddeddf Trosedd Difrifol 2015 drosedd newydd o ymddygiad rheolaethol a gorfodol mewn perthnasau agos neu deuluol ac mae'n amlwg yn fath o gamdriniaeth o dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais yn Erbyn Menywod 2015 yng Nghymru (VAWDASV). Oherwydd natur y gamdriniaeth ddomestig yma mae angen gwirioneddol i ymarferwyr sicrhau bod y gymuned y maen nhw'n gweithio ynddi'n adnabod ymddygiad rheolaethol a gorfodol fel camdriniaeth ddomestig.

Roedd yn eglur o drafodaethau gyda'r teulu, Oedolyn A a'r cofnodion proffesiynol, fod y berthynas rhwng Sean ac Oedolyn A yn gymhleth, yn hirhoedlog ac nid oedd yn benodol i'w perthynas. Dangosodd Oedolyn A'r un ymddygiad pan ddechreuodd ei deulu ei hun. Parhaodd i fod yn rheolaethol ac yn gamdriniol i'w bartner a'i blant trwy gydol eu perthynas. Pan ddychwelodd i gartref ei dad, roedd wedi gwaethygu yn ei ymddygiad rheolaethol ac nid oedd yn oddefgar iawn o'i dad, er ei fod yn byw yn ei gartref.

Roedd Sean yn bendant ei fod yn teimlo cyfrifoldeb am Oedolyn A. Fel tad, roedd yn teimlo'n gyfrifol i roi cymorth iddo pan ddaeth ei berthynas i ben a symudodd yn ôl i gartref y teulu. Ar wahan i Oedolyn A yn dweud wrthym ni ei fod wedi gofyn i'w dad roi cartref iddo, does dim tystiolaeth i gefnogi'r syniad fod Sean wedi cynnig llety ond yn hytrach **ddim** yn gwrthod rhoi llety iddo.

Cafodd grym Oedolyn A i ddychwelyd i'r cartref teuluol ac i ddechrau eto ar yr un ymddygiad rheolaethol a gorfodol tuag at ei dad effaith ar iechyd corfforol a meddyliol Sean. Cofnodir yn dda nad yw camdriniaeth ddomestig yn cael ei chydnabod fel rhywbeth sy'n bodoli ymysg pobl hŷn a hyd yn oed llai o gydnabyddiaeth mewn perthynas â dynion hŷn. Mae sefydliad Hourglas yn dweud fod dros 37% o gamdriniaeth ddomestig gan fab/merch tuag at eu rhieni hŷn a 23% tuag at dadau.

Doedd dim atgyfeiriadau at MARAC neu'n wir unrhyw adnabyddiaeth yn y teulu neu'r ychydig iawn o bobl broffesiynol daeth Sean neu Oedolyn A i gysylltiad â nhw fod camdriniaeth ddomestig yn broblem yn y cartref teuluol neu pan ddychwelodd i gartref ei dad.

Agwedd arall ac ar wahân o'r Drosedd Ddifrifol yw bod rhaid iddi gael 'effaith ddifrifol' ar rywun ac un ffordd o brofi hyn yw ei bod yn peri rhywun i ofni. Ar o leiaf un achlysur, gwelwyd Sean yn gwingo/cilio'n gorfforol pan ddaeth aelod o'r teulu ato o'r tu cefn iddo ar ôl i Oedolyn A symud yn ôl i fyw gydag ef.

Roedd hwn yn ymateb cryf i sefyllfa nad oedd yn fygythiol a nododd y teulu cyfan oedd yno'r 'ofn' yn ymateb Sean. Er mwyn cael profi ymddygiad gorfodol a rheolaethol, mae angen i'r erlyniad ddangos bod bwriad o reoli neu orfodi rhywun. (https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/controlling-or-coercive-behaviour-intimate-or-family-relationship).

## Pwyntiau Dysgu

### Pwynt dysgu 1– Sbardun Iechyd - yn gofyn am ymchwilio pellach

Oherwydd diffyg gwasanaethau proffesiynol oedd yn hysbys i Sean neu Oedolyn A, meddyg teulu Sean oedd yr unig berson proffesiynol a'i gwelodd cyn ei farwolaeth. Os oedd y cynnydd ym mhwysau gwaed yn fater iechyd newydd, neu'n dod yn fwy difrifol, beth fyddai'r meddyg teulu wedi ystyried oedd yn achos posibl? A fyddai'r Meddyg Teulu'n trafod ei fywyd gartref neu unrhyw newidiadau? A fyddai Sean wedi agor ei hun i drafod y straen yr oedd yn byw ag e nawr ers i Oedolyn A ddychwelyd i'w gartref? Efallai y gallai'r ffaith fod Sean yn aros allan o'i gartref am gyfnodau hwy o amser gyda'i deulu ehangach a'r effaith y gallai hynny fod wedi cael ar ei iechyd corfforol ac emosiynol wedi chwarae rhan yn ei iechyd corfforol. Mae angen i chwilfrydedd proffesiynol fod flaenaf ym mhob sgwrs gyda phob ymgysylltiad. Efallai mai dyma'r unig gyfle i rywun sy'n byw mewn amgylchedd rheolaethol gael siarad yn ddiogel.

### Pwynt dysgu 2- Dealltwriaeth ymarferwyr ac adnabyddiaeth o orfodaeth a rheolaeth fel camdriniaeth ddomestig oddi mewn i ddeinameg teuluol, ac nid dim ond mewn partneriaethau rhywiol.

Doedd y teulu ddim yn siarad yn agored am y berthynas rhwng Sean ac Oedolyn A fel un oedd â chamdriniaeth ddomestig yn rhan ohoni ond roedden nhw'n cydnabod bod y berthynas yn gymhleth ac yn un nad oedd yn rhwydd. Mae'r pryder y byddai Sean yn gadael i Oedolyn A ei reoli yn ei gartref ei hun, cymaint na fydden nhw ddim yn codi hyn gyda Sean, o bosibl yn adlewyrchu'r pryderon roedd ganddyn nhw amdanyn nhw eu hunain o ran ymddygiad Oedolyn

A a'r effaith posibl y byddai'n cael ar Sean pe baen nhw'n mynegi pryderon. Mae canfyddiadau blaenorol mewn ALID-AYO wedi canolbwyntio ar berthnasau gorfodol a rheolaethol o fewn teuluoedd fel rhai oedd yn cael eu hystyried yn rhai 'cymhleth' ac felly mae teuluoedd yn ansicr sut i fynd i'r afael â neu reoli'r ymddygiad, ac maen nhw'n cymryd rôl oddefol er mwyn goroesi neu i wneud y sefyllfa'n llai heriol i'r dioddefwr.

Mae lladdiad domestig tad gan fab sy'n oedolyn yn anghyffredin, ac mae yna rai canfyddiadau ymchwil sy'n rhoi mewnwelediad i nodweddion oedolion sy'n cam-drin rhieni oedrannus. Un o'r prif nodweddion yw bod oedolyn yn ddibynnol yn ariannol ar eu rhiant, fel roedd y sefyllfa gyda Sean ac Oedolyn A. Rhoddodd Sean gartref pan nad oedd gan Oedolyn A ddewis arall. Rhoddodd fwyd a maeth a hefyd, yn yr wythnos cyn iddo gael ei ladd, prynodd gar i Oedolyn A i'w alluogi i fod yn annibynnol. Mae cyfraddau diweithdra'n uwch ymhlith plant sy'n oedolion camdriniol, ac mae problemau cyffuriau ac alcohol yn gyffredin. Nid yw'n eglur a oedd 'awtistiaeth' Oedolyn A'n effeithio ar ei allu i weithio, ar ôl cael gyrfa lwyddiannus yn gynnar, roedd yn grefftwr medrus, ond efallai iddo ddewis peidio â gweithio. Yn ei gyfweliad, roedd Oedolyn A'n eglur ei fod yn gallu gwneud yn well na'r hyn y hyfforddwyd ef i wneud. Trwy beidio â gweithio y tu allan i'r cartref roedd yn gallu rheoli mewn ffordd dynnach ei deulu a pham aeth yn ôl i gartref ei dad.

Mae cwblhau'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (FfHC) o dan Ddeddf VAWDASV Llywodraeth Cymru yn gosod gofyniad gorfodol ar bob awdurdod perthnasol i adrodd yn flynyddol ar nifer o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Mae'r lefelau y FfHC sydd angen eu cwblhau yn dibynnu ar rôl yr unigolyn mewn sefydliad ond mae'n amlwg yn gorfodi pob lefel i gwblhau Grŵp 1(E-ddysgu). Mae angen ystyried ymhellach hyfforddiant mwy penodol mewn perthynas â gorfodaeth a rheolaeth i ymarferwyr gydnabod, holi a gweithredu arnynt pan nodir hynny.

**Pwynt Dysgu 3 – Rheolaeth orfodol a gydnabyddwyd gan Ymarferwyr a'r Gymuned.**

Mae Luke a Ryan Hart yn cyfeirio at ddeinamig eu teulu fel '*cynheiliad eu tad fel parasit'*. (Remembered forever: mother and sister murdered). Doedden nhw byth wedi ystyried nhw eu hunain yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig ac nid oedden nhw'n sylweddoli'r perygl angheuol yr oedd eu teulu ynddo. Ni all y dysgu o'r adolygiad hwn a marwolaeth drasig Sean amcangyfrif yn rhy isel y perygl angheuol yr oedd cyn-bartner Oedolyn A a'i phlant yn byw ag e, ac yn fwy pwysig pan ddigwyddodd y cam i wahanu o Oedolyn A. Mae'r llwybr a nodwyd o wyth cam at lofruddiaeth a ymchwiliwyd ac a gyhoeddwyd gan Jane Monckton-Smith yn amlwg yn berthnasol i gyn-bartner Oedolyn A a'r plant. Mae'r mewnwelediad i fywyd gydag Oedolyn A trwy lygaid ei deulu ac ystyriaeth o yr oedden nhw'n byw ac yn goroesi gydag e yn gofyn am amlygu er mwyn gwella cyfathrebu yn y gymuned. Mae rheolaeth orfodol yn rhagfynegydd mwy cywir o laddiad domestig nag yw trais domestig di-ball, oherwydd ei bod yn datgelu bod y rheiny sy'n gyfrifol yn credu bod ganddynt hawl i reoli bywyd eu dioddefwr, nid dim ond eu niweidio.

Mae heriau i ymarferwyr wrth weithio gyda theuluoedd ble mai rheolaeth yn brif yrrwr yn anodd eu gweld o'r tu allan. Mae Luke a Ryan Hart yn cyfeirio at dad y tu fewn yn erbyn tad y tu allan oedd â phersonoliaethau gwahanol iawn. Mae'n llawer mwy caled felly i ddioddefwyr fynegi beth sy'n mynd ymlaen yn y cartref panad yw'r sawl sy'n cyflawni'n dangos dim tystiolaeth o'r ymddygiad rheolaethol neu batrymau camdriniol.

Mae angen i ymarferwyr gydnabod dangosyddion rheolaeth a cholli annibyniaeth fel rhybudd o drais domestig a gorfodaeth posibl mewn teuluoedd. Dyma'r achos gyda Sean ac Oedolyn B a'u plant. I ddal y cadwyni anweledig sydd gael reolaeth orfodol ar ddioddefwyr a theuluoedd cyfan, mae gofyn i ymarferwyr edrych am arwyddion eraill o gamdriniaeth a rheolaeth. Gellir cael ei ystyried fel camdriniaeth ddomestig sy'n gofyn am ymholiad gwahanol gan ymarferwyr.

***Arfer Da 1.***

*Bydd cyflwyno prosiect IRIS mewn rhai meddygfeydd yn caniatáu codi'r ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig mewn meddygfeydd. Datblygwyd Rhaglen IRIS gan sefydliad IRISi. Mae'n rhaglen hyfforddiant, cefnogaeth ac atgyfeiriad arbenigol ar gyfer trais a chamdriniaeth ddomestig i Feddygfeydd Teulu. Mae'r Feddygfa yn yr adolygiad hwn nawr yn rhan o'r prosiect ac wedi ymgymryd nawr â'r hyfforddiant uwch perthnasol*

***Arfer Da 2.***

*Bydd hyfforddiant VAWDASV ar gyfer pob awdurdod perthnasol yn cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith ymarferwyr. Mae'r adrodd i ffurfiol i Lywodraeth Cymru sy'n ofynnol gan bob asiantaeth yn sicrhau cwblhau.*
*Yn Nhachwedd 2017, amlinellodd Llywodraeth Cymru dull cenedlaethol i bobl broffesiynol feddygol ei ddefnyddio i weld a oedd camdriniaeth ddomestig yn ffactor i gleifion oedd yn ceisio cymorth meddygol; cyfeiriwyd at hyn fel 'Gofyn a Gweithredu'. Mae wedi ei gyflwyno fel deddfwriaeth yng Nghymru. Elfennau'r cyfarwyddyd sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r rheiny sy'n ystyried pwynt y trothwy ble mae ymarferwyr yn asesu p'un ai i ofyn i gleifion yn benodol a ydyn nhw'n dioddef camdriniaeth ddomestig. Nid yw'r dull yma'n gofyn i bob claf sy'n cael ei weld gan berson proffesiynol a ydyn nhw'n dioddef camdriniaeth or fath (byddai dull o'r fath yn 'Ymholiad Cyffredin'). Yn hytrach, mae ymarferwyr yn cael eu hyfforddi i edrych am 'arwyddion' y gallai person fod yn dioddef camdriniaeth ddomestig. Os yw'r person proffesiynol yn ffurfio'r farn y gall person fod yn dioddef camdriniaeth o'r fath, byddan nhw'n ystyried a ddylen nhw wneud 'Ymholiad wedi ei Dargedu' a gofyn i'r person hwnnw'n uniongyrchol. Rhoddwyd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu trwy'r Bwrdd VAWDASV ac mae ar gael i Feddygon Teulu.*

***Arfer Da 3***

*Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi datblygu hyfforddiant i bobl broffesiynol amlasiantaeth sy'n gweithio gyda phobl hŷn. Pwrpas y cwrs yw cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith amrywiaeth o ymarferwyr o fathau o gamdriniaeth yn y teulu a'r 'niwed' sy'n cael ei ddioddef gan bobl hŷn, gan gynnwys cydnabyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig. Datblygu dealltwriaeth well o ddeinameg cymhleth rhwng teuluoedd a gofalwyr teuluol, yn ogystal â phroblemau eraill (rhwystrau, gwahaniaethu etc.)mae pob hŷn yn ei wynebu, efallai sydd a/heb anghenion iechyd corfforol, anableddau, nam gwybyddol a/neu anghenion seicolegol cymhleth.*

***Arfer Da 4***

***Llyfr Dewis yng Nghymru***

*Mae'r Ganolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi datblygu hyfforddiant a chyfarwyddyd am ddim i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig neu straen gyda'r rheiny sy'n rhoi gofal. Mae'r hyfforddiant a'r cyfarwyddyd wedi eu goleuo gan ymchwil yn y Ganolfan, gan gynnwys yr astudiaeth arhydol gyntaf i dynnu'n uniongyrchol ar brofiadau byw pobl hŷn o geisio cymorth. Mae cyrsiau hyfforddiant ar-lein am ddim yn y Ganolfan ar gael mewn tameidiau bach ac maen nhw'n hygyrch i amrywiaeth eang o ymarferwyr.*

*Os ydych chi ymarferwyr sy'n chwilio am gyngor neu gefnogaeth mewn maes penodol yn ymwneud â phobl hŷn, camdriniaeth ddomestig a straen rhai sy'n rhoi gofal, mae cysylltiad ar gyfer cyngor cyfrinachol ar gael trwy hello@dewiscHoice.org.uk*

[Resources - Centre For Age Gender and Social Justice (dewischoice.org.uk)](dewischoice.org.uk).

**Gwella Systemau ac Arfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y BDP a'r asiantaethau sy'n aelodau a'r gwelliannau a ddisgwylir:-*

**Pwynt dysgu 1**

Sbardun Iechyd - gofyn am ymchwilio pellach

**Pwynt dysgu 2**

Dealltwriaeth ymarferwyr ac adnabyddiaeth o orfodaeth a rheolaeth fel camdriniaeth ddomestig oddi mewn i ddeinameg teuluol, ac nid dim ond mewn partneriaethau rhywiol.

**Pwynt dysgu 3**

Rheolaeth orfodol a gydnabyddwyd gan Ymarferwyr a'r Gymuned.

**Yn Gryno**

I ddal y cadwyni anweledig sydd gan reolaeth orfodol ar ddioddefwyr a theuluoedd cyfan, mae gofyn i ymarferwyr edrych am arwyddion eraill o gamdriniaeth a rheolaeth yn hytrach na dibynnu ar ddangosyddion traddodiadol o gamdriniaeth corfforol. Gellir gweld rheolaeth orfodol fel ffurf o gamdriniaeth strategol sy'n galw am fathau gwahanol o ymholiad gwahanol gan ymarferwyr. Bydd ymwneud dioddefwyr gyda gwasanaethau proffesiynol yn cael ei reoli gan y sawl sy'n cyflawni'r gamdriniaeth, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bresennol. Mae'n bwysig felly i bob ymadwaith proffesiynol fod yn agored i'r posibilrwydd o reolaeth orfodol yn eu perthnasau.

**Camdriniaeth oedolion yn erbyn rhieni**

Mae ymchwil mewn perthynas â chamdriniaeth plant/oedolion o'u rheini yn cyfeirio at dri chategori y mae angen eu hystyried hefyd, 1, ***plant anghyfeillgar**: 2,* ***gofalwyr awdurdodaidd:*** *3* ***dibynyddion***. Er ein bod ni wedi sefydlu nad oedd Oedolyn A'n ofalwr i Sean, roedd yn *ofalwr awdurdodaidd* gyda'i blant ac yna daeth yna ffigwr awdurdodaidd yng nghartref Sean. Gall oedolion/plant awdurdodaidd fod â phersonoliaeth ormesol, anhyblyg, cosbol. Mae ymchwil yn eu disgrifio fel pobl feirniadol, ddiamynedd a swrth. Roedd Oedolyn A'n dangos yr ymddygiadau yma'n ifanc. Gwaethygon nhw a dod yn sefydlog gyda'r rhianta ei hun tuag at ei blant a'i ymddygiad tuag at ei bartner. Roedd yr ymddygiadau yma i gyd yn amlwg gydag Oedolyn A yn ystod rhan fwyaf ei fywyd.

Cyn hir, pobl hŷn fydd y fintai fwyaf mewn cymdeithas. Mae ymchwil yn dangos y bydd camdriniaeth o bobl hŷn yn cynyddu. Gan mai teuluoedd sy'n rhoi mwyafrif y gofal i anwyliaid oedrannus, mae dadansoddwyr yn credu y bydd plant sy'n oedolion yn parhau i gam-drin. Mae ymchwil yn galluogi proffilio plant sy'n oedolion sy'n cam-drin rhieni oedrannus. Mae hefyd yn cynnig teipoleg ar gyfer deall eu gweithredoedd. Ar ben hynny, mae theorïau traddodiadol yn cynnig dealltwriaeth gyffredinol o'r math yma o gamdriniaeth, tra bod theorïau newydd, integredig sy'n canolbwyntio ar ffactorau mewnol ac allanol yn rhoi modelau cymhleth ar gyfer astudiaeth. Mae gweithredu'r theorïau yma mewn

strategaethau gostwng camdriniaeth yn cynnig llawer o addewid ar gyfer lleddfu problem cam-drin pobl hŷn gan blant sy'n oedolion. Mae angen plethu ymchwil a theorïau cam-drin domestig gyda phob math o gamdriniaeth o bobl hŷn, fel nad ydyn ni'n colli rheolaeth orfodol fel lens i weld camdriniaeth.

Mae'r geiriau terfynol yn dod o deulu Sean ac roedd eu cynnwys yn yr adolygiad yn galluogi mewnwelediadau i ddeinamig y teulu nad oeddem yn gallu eu cael o unrhyw gofnodion proffesiynol, oherwydd nid oedd Sean ac Oedolyn A yn hysbys i'r gwasanaethau cyhoeddus neu wasanaethau arbenigol yn y gymuned.

***"Er bod gan yr adroddiad nifer o fanylion nad oeddem ni'n gwybod amdanynt, roeddem ni'n teimlo bod eich mewnwelediad a'ch cyngor wedi rhoi mwy o eglurder i ni mewn perthynas a phynciau sy'n ddieithr i ni.***

***Daethom ni o'r cyfarfodydd, er yn emosiynol iawn, rydych chi wedi rhoi'r gallu i ni ac wedi'n helpu ni i ddechrau galaru Dad ac mae gyda ni ryw ddiwedd ar y manylion am laddiad domestig nad ydynt yn cael eu trafod llawer.***

***Rydym unwaith eto mor ddiolchgar am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth trwy gydol y broses hon".***


## Llyfryddiaeth:


1. Brandl, Bonnie, and Loree Cook-Daniels. Domestic Abuse in Later Life: Who Are the Abusers? Washington DC: National Center on Elder Abuse, 2003.
2. Hart, Luke and Ryan, Remembered Forever. Seven Dials 2019
3. Hart, Luke and Ryan, Operation Lighthouse. CoCo awareness 2018
4. Monckton-Smith Jane, In Control: Dangerous relationships and how they end in murder.2021


Atodiadau

A. Myfyrdod y teulu am dyfu i fyny gyda'r tramgwyddwr
B. Drafft cynllun gweithredu.

| **Datganiad gan yr Adolygwr(wyr)** | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGWR 1** | Mary Ryan<br>Pennaeth Diogelu Corfforaethol, Cyngor Dinas Casnewydd. | **ADOLYGWR 2** | Ann Hamlet<br>Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster* | | **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster* | |
| Datganaf fel a ganlyn,<br>cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:-<br><br>• Nad ydw i wedi bod ynghlwm yn uniongyrchol â Sean, Oedolyn A na'r teulu ehangach, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. | | Datganaf fel a ganlyn,<br>cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:-<br><br>• Nad ydw i wedi bod ynghlwm yn uniongyrchol â Sean, Oedolyn A na'r teulu ehangach, na wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos<br><br>• Dydw i ddim wedi bod yn rheolwr llinell yr ymarferwr(wyr) a fu ynghlwm. | |

| | |
|---|---|
| • Dydw i ddim wedi bod yn rheolwr llinell yr ymarferwr(wyr) a fu ynghlwm.<br><br>• Mae gen i'r cymwysterau cynabyddedig, y wybodaeth a'r profiad a hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r adolygiad.<br><br>• Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ffordd briodol ac roedd yn drwyadl yn ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl | • Mae gen i'r cymwysterau cynabyddedig, y wybodaeth a'r profiad a hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r adolygiad.<br><br>• Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ffordd briodol ac roedd yn drwyadl yn ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl |
| **Adolygwr 1**<br>*(Llofnod)* <br><br>**Enw: Mary Ryan**<br><br>**Dyddiad 25/09/2021** | **Adolygwr 2**<br>*(Llofnod)* <br><br>**Enw: Ann Hamlet**<br><br>**Dyddiad 25/09/2021** |

| |
|---|
| *Cadeirydd Panel yr Adolygiad*<br>**Enw: DPA Martin Price, Heddlu Gwent, dyrchafwyd yn Uwch-arolygydd Diogelwch Cyhoeddus yn ystod cyfnod yr adolygiad.**<br><br>Doedd gan Mr Price ddim cysylltiad â'r teulu cyn y llofruddiaeth ac ni chafodd unrhyw gysylltiad â'r ymchwiliad troseddol a phroses y llys.<br><br>**Dyddiad 25/09/2021** |

**Proses ALlD-AYO**

*Cynnwys yma'n gryno:*

- *Y broses a ddilynwyd gan y BDP a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a ddaeth*
- *Rhoddwyd gwybod i aelodau'r teulu, gofynnwyd am eu barn a chawsant eu cynrychioli trwy gydol y digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddyn nhw.*

Adolygwr: Ann Hamlet, Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adolygwr: Mary Ryan, Pennaeth Diogelu Corfforaethol, Cyngor Dinas Casnewydd

Cadeirydd y Panel:  Martin Price

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- BIPAB
- Heddlu Gwent
- Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedol
- Arweinydd VAWDASV ar gyfer rhanbarth Gwent (Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol) sy'n cysylltu â ac yn cynrychioli'r 3ydd sector/sector wirfoddol ar y panel.
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Cyfarfu'r panel yn rheolaidd o'r grŵp Diogelu Adolygiad Achos ar 11.02.2020, i benderfynu'r panel a phenodi'r adolygwyr i gyfarfodydd y panel.

Cyfarfodydd y Panel
01.06.2020
01.07.2020
06.08.2020
07.09.2020
12.10.2020
17.12.2020
02.02.2021
22.03.2021

Cyfarfod olaf ar 07.09.2021 er mwyn adolygu'r wybodaeth amlasiantaeth a rhoi dadansoddiad i gefnogi datblygiad yr adroddiad. Estynnodd pandemig Coronafirws gyfnod yr adolygiad oherwydd oedi wrth gwrdd â'r teulu, aelodau ehangach a chwrdd ag Oedolyn A.

# Cylch Gorchwyl
# Adolygiad Ymarfer Oedolion - Domestig Cryno (ALlD-AYO)

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn gosod allan amrediad y cynllun peilot hwn sy'n bwriadu gwneud Adolygiad Lladdiad Domestig (ALlD) gan ddefnyddio'r broses Adolygiad Ymarfer Oedolion (AYO).  Felly, mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn cynrychioli cyfuniad o fethedolegau ALlD ac AYO a fydd yn llywio'r broses beilot ac a fydd yn cael eu defnyddio i oleuo datblygiad gweithdrefnau adolygiadau'r dyfodol.

Ystyr "Adolygiad Lladdiad Domestig" yw adolygiad o'r amgylchiadau ble mae marwolaeth person dros 16 oed wedi, neu mae'n ymddangos ei bod wedi, digwydd o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustra gan:

(a) person yr oedd yn perthyn iddyn nhw neu yr oedd neu yr oedd wedi bod mewn perthynas personol agos â nhw, neu

(b) aelod o'r un aelwyd ag ef,

Wedi ei gynnal gyda'r bwriad o gael gwybod y gwersi sydd i'w dysgu o'r farwolaeth. (Swyddfa Gartref, Multi-agency Statutory Guidance for the Conduct of Domestic Homicide Reviews, Rhagfyr 2016)

Mae angen bodloni'r maen prawf uchod ar gyfer Adolygiad Lladdiad Domestig er mwyn i'r achos fod yn gymwys i'w adolygu gan ddefnyddio'r broses Adolygiad Ymarfer Oedolion.

Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau yn yr achos yn cydymffurfio â'r polisi a

- Gweithdrefnau’r gwasanaethau a enwyd a'r Bwrdd
- Edrych ar waith rhwng asiantaethau a darpariaeth gwasanaeth i'r unigolyn a'r teulu.
- Penderfynu'r graddau iddynt yr oedd penderfyniadau a chamau’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ystyried a yw teulu a ffrindiau'n barod i gymryd rhan yn yr adolygiad.
- Chwilio am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddyn nhw am agweddau allweddol cynnydd.
- Asesu'r graddau iddynt yr oedd teulu a ffrindiau'n ymwybodol o ymddygiad camdriniol neu orfodol/rheolaethol gan Oedolyn A tuag at Sean.
- Adolygu unrhyw rwystrau a wynebwyd gan y teulu wrth ddweud am gamdriniaeth neu bryderon, gan gynnwys a oedden nhw (neu Sean) yn gwybod sut i ddweud am neu adnabod camdriniaeth ddomestig deuluol pe baen nhw'n dymuno gwneud hynny.
- Adolygu unrhyw ymddygiad blaenorol oedd yn peri pryder neu hanes o ymddygiad camdriniol neu orfodol/rheolaethol gan Oedolyn A ac a oedd hyn yn hysbys neu'n cael ei ddangos gan asiantaethau
- Asesu a fyddai wedi bod yn bosibl cynnal Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth
- Asesu a oedd gan Oedolyn A hanes blaenorol o ymddygiad camdriniol neu orfodol/rheolaethol tuag at bartner blaenorol.
- Adolygu cyfathrebu â'r cyhoedd a gwasanaethau nad sy'n arbenigol am wasanaethau arbenigol yn ymwneud â chamdriniaeth neu drais domestig.
- Cymryd i ystyriaeth unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog â'r achos.
  Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi adnoddau y mae eu hangen is yw hynny'n briodol.

## Yn ogystal â'r broses adolygu, ystyried yn arbennig y canlynol:

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am Oedolyn A a/neu aelodau'r teulu'n hysbys ac yn cael eu hystyried mewn asesiadau pobl broffesiynol, eu cynllunio a'u penderfyniadau mewn perthynas ag Oedolyn A, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut wnaeth y wybodaeth honno gyfrannu at y canlyniad i Sean.
- A gafodd y camau eu gweithredu’n effeithiol, eu monitro a'u hadolygu ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol i ddatblygiad a chyflenwad y camau amlasiantaeth?
- Agweddau'r camau a weithiodd yn dda a'r rheiny na weithiodd yn dda a pham. Y graddau iddynt yr oedd asiantaethau'n herio'i gilydd ynglŷn ag effeithlonrwydd y camau, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau a gytunwyd i Sean ac Oedolyn A. A oedd angen y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol neu a gafodd ei weithredu?
- A gafodd dyletswyddau statudol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda Sean ac Oedolyn A eu bodloni.

- ***Pennaeth Diogelu***
- ***Ysbyty Maenor Llanfrechfa***

- A oedd yna rwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a wnaeth atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion trefniadol neu gyd-destunol eraill).

## Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Adnabod a chomisiynu adolygwr/wyr i weithio gyda'r Panel Adolygu'n unol â chyfarwyddyd ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.

- Cytuno ar yr amserlen

- Adnabod asiantaethau, gwasanaethau a phobl broffesiynol berthnasol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau sydd eisoes wedi eu cymryd.

  Yr asiantaethau sy'n aelodau'r panel a chyfranwyr perthnasol i'r Adolygiad yw:

  - Cyngor Bwrdeistref Siriol Torfaen - Kate Williams Rheolwr Grwp, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Gill Pratlett, Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
  - BIPAB - Ann Hamlet, Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Adolygwr Adroddiad)
  - Heddlu Gwent - Alun Davies, Ditectif Uwch-arolygydd DPA Martin Price, Heddlu Gwent, dyrchafwyd yn Uwch-arolygydd Diogelwch Cyhoeddus yn ystod cyfnod yr adolygiad - Cadeirydd ALlD-AYO
  - Gwasanaethau Diogelwch Cyhoeddus a Chymunedol - Andrew Tuck, Arweinydd Diogelwch Cyhoeddus, Heddlu Gwent
  - VAWDASV (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) – Janice Dent, Cydlynydd Gwasanaethau Partneriaeth Rhanbarthol.
  - Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Pennaeth Diogelu
  - Adolygwr Adroddiad - Mary Ryan, Pennaeth Diogelu Corfforaethol, Cyngor Dinas Casnewydd

  Llywodraethiant

  - Swyddfa Gartref
  - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) - fel corff llywodraethol. Bydd cynnydd yn y peilot yn cael ei adrodd i PDC gan Gydlynydd y PDC.

- Cynhyrchu amserlen gyfunol, ar gyfer dadansoddiad a damcaniaethau cychwynnol.

- Cynllunio gyda'r adolygwr/wyr trefniadau cysylltu ag aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.

- Sicrhau bod opsiynau eiriolaeth yn cael eu cynnig i aelodau'r teulu, gan gynnwys opsiwn 'cydsyniad i rannu'. Hyd yn oed os na chaiff ei dderbyn, bydd hyn yn ceisio sicrhau bod aelodau'r teulu'n gwybod beth sydd ar gael iddyn nhw ar bob cam ym mhroses yr adolygiad. Adolygu cynnig yr opsiynau eiriolaeth yma'n rheolaidd trwy gydol proses yr adolygiad. Sicrhau, wrth wneud aelodau'r teulu'n ymwybodol o'u hopsiynau eiriolaeth, bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu dewis y teulu.

- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygiad ymarfer oedolion drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi ei fodloni, bod y damcaniaethau cychwynnol wedi eu hwynebu a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Adolygu arfer gorau mewn perthynas â gwarchod oedolion rhag camdriniaeth ddomestig.

- Tynnu casgliadau ynglŷn â sut gall sefydliadau a phartneriaethau wella'u dulliau gweithio yn y dyfodol i gefnogi dioddefwyr camdriniaeth ddomestig ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno i Grŵp SA y Swyddfa Gartref, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y grŵp Adolygiad Achos, Bwrdd Diogelu Gwent i'w ystyried a'i gytuno.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl gorffen yr adolygiad a chyn cyhoeddi

## Tasgau'r Bwrdd Diogelu

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'r bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Panel Adolygu'n cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Bwrdd yn danfon yr adroddiad at asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn gorffen a chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau disgwyliedig i wasanaethau yn cael eu hadnabod, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno ar rannu gyda'r asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a phobl broffesiynol berthnasol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud pob sylw ac ymateb cyhoeddus i ddiddordeb gan y cyfryngau yn yr adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi gorffen.

DIWEDD

A. Myfyrdodau aelod o'r teulu am dyfu gydag Oedolyn A

Adult A (reflections of parenting).docx

B. Cynllun Gweithredu

Cedwir gan yr awdurdod lleol

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Diogelodd Deddf Cydraddoldeb 2010 naw o 'nodweddion gwarchodedig' er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu[1]. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i nifer o feysydd bywyd person; yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, bydd y ffordd y defnyddiodd a derbyniodd y dioddefwr a'r troseddwr wasanaethau cyhoeddus, yn benodol gwasanaethau Iechyd lleol, yn cael ei hystyried yn fanwl.

[1] https://www.gov.uk/discrimination-your-rights